# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 09/12/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

### Dyraniad Cyllid

**C11 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol ar gyfer y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)0893(FPS)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyheoddus (Andrew Davies)**: Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2010-11 gan y Cynulliad ddoe. O ran y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau, mae cyfanswm y gyllideb bron yn £1.7 biliwn a'r gyllideb gyfalaf bron yn £183 miliwn.

### Dyraniad Cyllid

**C12 Leanne Wood**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol gyfer y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(3)0900(FPS)

**Andrew Davies:** Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2010-11 gan y Cynulliad ddoe. O ran y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae cyfanswm y gyllideb refeniw tua £5.8 biliwn a'r gyllideb gyfalaf yn £297 miliwn.

### Dyraniad Cyllid

**C13 Dai Lloyd :** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i godi'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)0888(FPS)

**Andrew Davies:** Wrth ddatblygu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau, bûm yn ymgynghori'n agos â'm cydweithiwr y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Heb gynnwys y dyraniad yng nghyllideb atodol 2009-10, bydd y cynnydd o ran arian parod yng nghyllideb refeniw APADGOS yn 2.5 y cant heblaw am drosglwyddiadau.

### Prosesau Caffael

**C14 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosesau caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0911(FPS)

**Andrew Davies:** Mae prosesau cadarn yn sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn foesol, yn gynaliadwy, yn dryloyw a'u bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Yr ydym yn cyflwyno technoleg newydd i leihau biwrocratiaeth ac i ehangu'r gystadleuaeth er mwyn cynnwys

cyflenwyr llai, gan barhau i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu prynu, ar sail ansawdd a'r gost ar hyd eu hoes.

### Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**C15 Darren Millar:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith mynd yn ôl i gyfradd treth ar werth o 17.5 y cant ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)0919(FPS)

**Andrew Davies:** Nid oes asesiad cyffredinol wedi'i wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r swm o £15 biliwn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i wasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i gwmpas TAW. Lle bo TAW yn cael ei chodi ar ein nwyddau a'n gwasanaethau, sef tua £300 miliwn, mae modd inni hawlio costau TAW sylweddol yn ôl. O'r herwydd, nid yw newidiadau yn y cyfraddau yn cael effaith sylweddol o ran y gefnogaeth yr ydym yn ei rhoi i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Atgyweirio Adeiladau Ysgolion

**C9 Peter Black**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atgyweirio adeiladau ysgolion? OAQ(3)1169(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Yn fy natganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror eglurais y diwygiadau byddwn yn eu gwneud er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn ysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain. Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi arian trosiannol gwerth £204.8 miliwn i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau prosiectau cyfalaf pwysig ym maes adeiladu o'r newydd a gwaith adnewyddu.

### Y Cyfnod Sylfaen

**C10 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw ddadansoddiad a wnaethpwyd o lwyddiant y Cyfnod Sylfaen? OAQ(3)1140(CEL)

**Jane Hutt:** Mae'r gwaith monitro a gynhaliwyd gennyf yn cadarnhau ein bod yn cyrraedd y nod o ran cymhareb o un oedolyn i bob wyth disgybl rhwng 3 a 5 oed. Mae pecyn canllawiau diweddar Estyn ar chwarae a dysgu gweithgar yn nodi llawer o enghreifftiau o blant sy'n ffynnu o dan y cyfnod sylfaen. Bydd rhagor o ddadansoddi ar y modd y mae'r cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno, yn adroddiad blynyddol y prif arolygydd.

### Sgiliau Sylfaenol

**C11 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu sgiliau sylfaenol yn y gogledd? OAQ(3)1170(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths):** Yr ydym yn benderfynol o godi lefelau sgiliau sylfaenol ledled Cymru. Ar hyn o bryd yr ydym wrthi'n pwyso a mesur yr hyn a gyflawnwyd o dan y strategaeth genedlaethol bresennol, 'Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri', er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddwyn ymlaen yr agenda sgiliau o fis Ebrill 2010 ymlaen. Canfyddiadau gwerthusiad ffurfiol fydd yn llywio'r broses hon.

### Cyrhaeddiad Addysgol

**C12 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyrhaeddiad addysgol yng

Nghymru? OAQ(3)1175(CEL)

**Jane Hutt:** Parhau wnaeth cynnydd disgyblion Cymru yn 2009 a gwelwyd gwelliant o ran y canlyniadau ar draws y cyfnodau allweddol. Eleni llwyddodd 61 y cant o ddisgyblion 15 oed i gyrraedd trothwy Lefel 2, sy'n swm o ddysgu sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C mewn arholiadau TGAU, sef cynnydd o 3 phwynt canran o gymharu â 2008.

**Chwaraeon mewn Ysgolion**

**C13 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am chwaraeon yn ysgolion Cymru? OAQ(3)1147(CEL)

**Jane Hutt:** Mae chwaraeon yn gwneud cyfraniad hanfodol i iechyd, ffitrwydd a lles. Mae'n rhan hanfodol o ddatblygiad corfforol plant ac o'r addysg a ddarperir ar eu cyfer o dan y cyfnod sylfaen a'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer ysgolion. Yr wyf yn cefnogi ysgolion i wella safonau drwy'r fenter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.

**Pynciau Galwedigaethol**

**C14 Dai Lloyd**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer pynciau galwedigaethol mewn cwricwla ysgolion? OAQ(3)1143(CEL)

**Jane Hutt:** Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad ddeddfwriaeth yn ddiweddar, sef Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, er mwyn sicrhau bod modd i bobl ifanc, yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16, ddewis cwrs astudio o blith ystod eang o gyrsiau gan gynnwys nifer cynyddol o bynciau galwedigaethol.

**Ymrwymiadau 'Cymru Un'**

**C15 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd at gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' yn y portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)1136(CEL)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi gwneud cynnydd da o ran gwireddu'r ymrwymiadau yn Cymru'n un sy'n perthyn i'm portffolio i. Cyhoeddwyd diweddariad o'r cynllun cyflawni ar 22 Hydref. Mae'r gyllideb derfynol yn cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen, cwnsela mewn ysgolion, y strategaeth cymorth ieuenctid, addysg cyfrwng cymraeg a mesurau i leddfu effeithiau'r dirwasgiad**.**